# DAVIES, JOSEPH E. (1812 - 1881), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn U.D.A. ac awdur

**Enw:** Joseph E. Davies
**Dyddiad geni:** 1812
**Dyddiad marw:** 1881
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn U.D.A. ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert (Bob) Owen

Ganwyd yn Cwm-Cati-Fach, Llanarthneu, Sir Gaerfyrddin. Ymfudodd i America gan lanio yn Efrog Newydd 25 Mai 1842. Aeth i'r weinidogaeth, 1842, fe'i hordeiniwyd yn Danville, Pennsylvania, 1842, a bu'n weinidog ar eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Hyde Park, Scranton, Pennsylvania. Cyhoeddodd *Blwch Diwinyddol: sef Corff o Dduwinyddiaeth...* (Scranton ac Utica, 1869-71) a *Crefydd y Byd Cristionogol*. Bu farw 1 Ionawr 1881 yn Hyde Park.

## Awdur

**Robert (Bob) Owen**, (1885 - 1962)

## Ffynonellau

*Y Drych*, 13 Ionawr 1881

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733709

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu